Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

# **Rhyddhau gwybodaeth**
# o gofrestrau DVLA



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
**We invest in people** Gold
**Rydym yn buddsoddi mewn pobl** Aur

Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)
Heol Longview
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r Tîm Polisi Gwybodaeth, yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain, TW9 4DU neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

# Mae DVLA yn rheoli llawer iawn o ddata i helpu i gadw modurwyr Prydain yn symud yn ddiogel ac yn gyfreithlon. Yn ogystal â darparu gwybodaeth i'r heddlu ac awdurdodau lleol, mae gan ryddhau data DVLA a reolir yn briodol i drydydd partïon fuddion moduro ymarferol. Ym mhob mater rhyddhau data, mae DVLA yn gweithredu'n gyfrifol ac yn unol â'r gyfraith.

I gyflawni ei swyddogaethau, mae gan DVLA 2 gofrestr ar wahân. Mae'r gofrestr gyrwyr yn dal enw, cyfeiriad, dyddiad geni, ffotograff, hawl, ardystiadau, euogfarnau a gwybodaeth feddygol berthnasol a allai effeithio ar allu unigolyn i yrru.

Defnyddir cofrestr cerbydau DVLA yn bennaf i nodi cerbydau a ddefnyddir ar ffyrdd cyhoeddus, helpu gyda gorfodi'r gyfraith, casglu treth cerbyd a helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd. Mae'n cadw gwybodaeth am bob cerbyd modur (er enghraifft, rhif cofrestru, rhif adnabod cerbyd, gwneuthuriad a model, allyriadau) a statws treth y cerbyd. Mae hefyd yn cynnwys enw a chyfeiriad y ceidwad cofrestredig, y dyddiad y cafodd y cerbyd ei gaffael a'i waredu.

Er bod y gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i DVLA amddiffyn preifatrwydd modurwyr unigol y mae eu manylion gennym ar y 2 gofrestr, mae yna nifer o amgylchiadau cyfreithlon lle gallwn ryddhau data o'r cofrestrau.

## Deddf Diogelu Data (DPA)

Mae holl rannu data DVLA yn cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Nid yw Deddf Diogelu Data 2018 yn atal data rhag cael ei ddatgelu pan wneir hyn o fewn deddfwriaeth diogelu data. Mae'r hawl i brosesu'r data naill ai wedi'i chynnwys mewn statud, mewn cyfraith gyffredin neu bwerau uchelfreiniol eraill y Goron. Dim ond pan fydd hi'n gyfreithlon ac yn deg gwneud hynny y bydd DVLA yn rhyddhau gwybodaeth.

Barnodd yr archwiliad diweddaraf gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod gweithdrefnau'r DVLA yn cynnig sicrwydd uchel bod prosesau i liniaru'r risg o ddiffyg cydymffurfio â'r DPA ar waith.

## Rhannu data gyda gwledydd eraill

Mae DVLA yn rhannu data cerbydau i alluogi gwledydd eraill i wirio gwybodaeth am gerbydau a gyflwynir i'w cofrestru. Rydym hefyd yn rhannu data trwyddedau gyrru gyda gwledydd eraill i ganiatáu iddynt benderfynu ar ddilysrwydd trwyddedau gyrru a gyflwynir i'w cyfnewid.

## Rhyddhau gwybodaeth o gofrestr gyrwyr DVLA

Gellir rhannu data gyrwyr ag adrannau eraill y llywodraeth neu gyrff sector cyhoeddus a all ddangos pŵer cyfreithiol i'w ganiatáu ac sy'n cwrdd â gofynion y DPA. Rhaid i'r rhesymau pam y gofynnir am y wybodaeth a sut y bydd yn cael ei defnyddio, er enghraifft profion gyrwyr, gorfodi traffig ar y ffyrdd a dedfrydu, fod yn glir. Mae rhyddhau data gyrwyr yn fwy cyfyngedig na gwybodaeth am gerbydau oherwydd natur y wybodaeth a gedwir.

Gellir rhannu gwybodaeth gyrwyr â sefydliadau eraill fel cwmnïau llogi ceir neu gyflogwyr sy'n dymuno cadarnhau eu hawl i yrru gydag awdurdodiad y gyrrwr. Rhaid i'r sefydliadau ddangos angen perthnasol i gael y wybodaeth honno.

Os hoffech gael gwybodaeth o'ch cofnod gyrrwr, gallwch gael hyn trwy ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein: **www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru**

Neu gallwch ysgrifennu atom gan ddarparu'ch enw a'ch cyfeiriad llawn a'ch rhif trwydded yrru (neu ddyddiad geni os nad ydych chi'n gwybod eich rhif gyrrwr). Anfonwch eich cais i DVRE, DVLA, Abertawe, SA6 7JL. Nid oes unrhyw ffi am y gwasanaeth hwn.

## Rhyddhau gwybodaeth o gofrestr cerbydau DVLA

Mae'r gyfraith yn caniatáu i DVLA ryddhau gwybodaeth o'r gofrestr cerbydau i'r heddlu ac awdurdodau lleol. Mae Rheoliad 27 o Reoliad Cerbydau Ffyrdd (Cofrestru a Thrwyddedu) 2002 hefyd yn caniatáu inni ryddhau data i sefydliadau ac unigolion yn y sector preifat neu gyhoeddus. Mae hyn ar yr amod eu bod yn gallu dangos achos rhesymol dros ei gael. Mae rhyddhau gwybodaeth am gerbydau a'u ceidwaid at y dibenion hynny yn hirsefydlog ac roedd ar waith cyn bod DVLA yn bodoli. Gan fod y gyfraith yn caniatáu rhyddhau data personol, nid oes angen caniatâd ceidwad y cerbyd arnom i ddatgelu ei fanylion.

## Ceidwad cofrestredig

Mae cofrestr cerbydau DVLA yn cadw manylion ceidwad cofrestredig cerbyd. Gellir datgelu'r manylion hyn i awdurdodau gorfodi'r gyfraith, ymgyfreithwyr preifat a sefydliadau fel pwynt cyswllt cyntaf i sefydlu lle y gallai atebolrwydd am achos neu ddigwyddiad fod. Nid yw datgelu dan yr amgylchiadau hyn yn torri'r DPA ac mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gwbl ymwybodol bod data a gedwir ar gofnodion y DVLA yn cael ei ryddhau fel hyn.

## Achos rhesymol dros ryddhau data

Mae achos rhesymol dros ryddhau data o gofrestr cerbydau DVLA yn ymwneud â digwyddiadau moduro gydag atebolrwydd gyrrwr neu geidwad. Gall y rhain gynnwys materion diogelwch ar y ffyrdd, digwyddiadau sy'n digwydd o ganlyniad i ddefnyddio cerbydau, gorfodi deddfwriaeth traffig ar y ffyrdd a chasglu treth. Ym mhob mater rhyddhau data, rydym yn gweithredu'n gyfrifol ac yn unol â'r gyfraith.

Lle dangosir achos rhesymol, rydym yn datgelu gwybodaeth ar yr amod mai dim ond at y diben y gofynnwyd amdani y bydd yn cael ei defnyddio ac y bydd y derbynnydd yn diogelu ei chyfrinachedd.

Mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni godi ffi i dalu cost prosesu ceisiadau o dan achos rhesymol, felly mae'r sawl sy'n gofyn yn gyfrifol am y gost ac nid yw'n cael ei throsglwyddo i'r trethdalwr.

## Buddion rhyddhau data

Mae caniatáu i'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith gael mynediad at ddata DVLA yn gyflym ac yn hawdd yn helpu i gadw'r ffyrdd yn fwy diogel. Defnyddir y data i nodi gyrwyr a cherbydau didrwydded heb dreth cerbyd, yswiriant na MOT dilys.

Mae gan fodurwyr gyfrifoldeb i drethu, yswirio a chael prawf MOT ar eu cerbydau, cadw at reoliadau traffig ffyrdd a pharcio yn unol â'r amodau a bennir gan ddarparwyr parcio. Mae rhyddhau data a reolir yn briodol a'n cefnogaeth i orfodi'r gyfraith yn helpu i reoli costau moduro, yn lleihau troseddau cerbydau, ac o fudd i fodurwyr a'r amgylchedd. Gellir rhyddhau gwybodaeth i:

- awdurdodau lleol ar gyfer gorfodi parcio ar y ffordd ac ymdrin â cherbydau sydd wedi'u gadael neu'n achosi niwsans
- yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA) i wella safonau addasrwydd i'r ffordd fawr cerbydau trwy ardystiad MOT a sicrhau bod gweithredwyr a gyrwyr cerbydau yn cydymffurfio, yn ogystal ag at ddibenion profion gyrru theori ac ymarferol
- gweithgynhyrchwyr modur i gyhoeddi hysbysiadau galw cerbydau yn ôl diogelwch a diddymu cerbydau a allai fod yn beryglus rhag cael eu defnyddio
- Trafnidiaeth Llundain i orfodi codi tâl am dagfeydd, sy'n ceisio lleihau nifer ac allyriadau cerbydau yng nghanol y ddinas
- cwmnïau yswiriant i fynd ar drywydd hawliadau yn dilyn damweiniau, ymchwilio i dwyll ac olrhain modurwyr heb yswiriant
- tirfeddianwyr neu eu hasiantau sy'n cynnig cyfleusterau parcio ceir o dan delerau ac amodau penodol fel y gallant gysylltu â gyrwyr a allai fod wedi parcio eu cerbyd gan dorri'r amodau parcio
- helpu i weinyddu Parth Aer Glân (CAZ)

## Y ceisiadau ymarferol

Rydym yn derbyn ceisiadau am wybodaeth gan unigolion a sefydliadau preifat mor amrywiol â pharcio ceir a chwmnïau rheoli tresmasu, cyfreithwyr, tai cyllid a rheolwyr eiddo. Rydym yn gwirio pob cais papur i sicrhau eu bod yn cwrdd ag achos rhesymol.

Rhaid i sefydliadau a chwmnïau sy'n gofyn am ddata trwy gyswllt electronig ddiogel treulio cyfnod prawf o 6 mis yn gyntaf. Mae telerau cytundebol caeth yn disgrifio pryd y gellir gofyn am wybodaeth a sut y gellir ei defnyddio. Pan fyddwn yn rhyddhau data, mae bob amser at ddiben penodol.

## Tirfeddianwyr, cwmnïau parcio ceir preifat a chwmnïau rheoli tresmasu

Mae cyfleusterau parcio ceir preifat yn darparu gwasanaeth hanfodol mewn trefi a dinasoedd ledled y DU. Effeithir ar lawer o siopau, gwestai, tafarndai a meddygfeydd pan fydd modurwyr yn parcio eu cerbydau gan dorri telerau ac amodau maes parcio. Mae rhyddhau data a reolir yn briodol o gofrestr cerbydau DVLA yn helpu'r sefydliadau hyn i weithredu'n effeithiol er budd pob modurwr.

Mae modurwr sy'n parcio cerbyd ar dir preifat yn gwneud hynny yn ddarostyngedig i'r telerau ac amodau a nodir ar arwyddion y maes parcio. Fe'i hystyrir yn rhesymol i fusnesau a thirfeddianwyr geisio iawndal os yw cerbydau wedi'u parcio yn torri'r telerau ac amodau. Gallai hyn gynnwys aros yn rhy hir yn y cyfnod amser a ganiateir, methu â thalu'r tâl perthnasol neu dresmasu ar dir lle na chaniateir parcio.

Efallai bod cerbydau hefyd wedi'u parcio'n anystyriol, er enghraifft, mewn lle a gedwir ar gyfer modurwyr anabl pan nad oes ganddynt hawl i neu'n rhwystro mynediad i gerbydau argyfwng.

Mae DVLA yn darparu data i ganiatáu i dirfeddianwyr neu eu hasiantau ddilyn eu hawliau cyfreithiol a datrys anghydfodau.

Er mwyn sicrhau bod modurwyr yn cael eu trin yn deg pan godir unrhyw dâl parcio neu dresmasu, dim ond pan fydd y cwmni'n aelod o Gymdeithas Masnach Achrededig (ATA) y bydd DVLA yn darparu manylion ceidwad cerbyd.

Mae ATAs yn gorfodi cod ymarfer sy'n ymdrin â sawl agwedd ar fusnes gweithredwr parcio ceir. Er bod cydymffurfio â'r cod ymarfer yn ystyriaeth bwysig i DVLA wrth ryddhau data ceidwaid cerbydau, nid yw holl ofynion y cod yn effeithio ar achos rhesymol.

Ni fydd DVLA yn datgelu data i gwmnïau parcio neu dresmasu nad ydynt yn aelodau o ATA. Disgwyliwn i'r ATAs fonitro ymlyniad wrth y cod ymarfer ac ymchwilio a mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio pan mae'n digwydd.

## Twyll

Gellir defnyddio data cerbydau DVLA i olrhain ceidwaid sydd wedi gyrru i ffwrdd heb dalu am nwyddau neu wasanaethau neu wedi defnyddio dulliau talu twyllodrus ar gyfer petrol neu atgyweiriadau cerbyd. Gellir rhyddhau gwybodaeth i gwmnïau yswiriant i wirio a yw damwain traffig ffordd wedi'i chynnal yn fwriadol neu a yw hawliad o ddwyn yn dwyllodrus. Gellir rhyddhau gwybodaeth am geidwad cerbyd hefyd i ganiatáu ymchwilio i droseddau 'clocio' cerbydau dan amheuaeth o dan y Ddeddf Disgrifiadau Masnach. Gellir ei defnyddio i leihau troseddu trwy ganiatáu i gwmnïau cyllid olrhain ceidwaid cerbydau sydd wedi sicrhau cytundeb prydlesu neu fenthyciad ar gerbyd trwy dwyll.

## Cyllid

Mae yna lawer o resymau ariannol i DVLA ryddhau data am gerbydau. Efallai y bydd angen gwybodaeth ar dderbynnydd neu ddatodwr a benodir gan y llys i bennu asedau cerbydau yn ystod achos ansolfedd neu ganiatáu i asiant casglu dyledion sy'n gweithredu o dan orchymyn llys atafaelu cerbyd. Gellir darparu gwybodaeth i gyfreithiwr neu asiantaeth cymorth cyfreithiol ar gyfer ymchwiliadau i anghydfodau sifil ac i adennill costau.

## Damweiniau a digwyddiadau

Gall rhyddhau data o gofrestr cerbydau DVLA helpu cwmni yswiriant, sy'n gweithredu ar ran deiliad polisi, olrhain partïon eraill sy'n gysylltiedig â damwain neu ddigwyddiad traffig ffordd. Gallai hyn gynnwys anaf personol neu ddifrod i gerbyd neu eiddo. Mae'n caniatáu i gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran cleient olrhain ceidwad cerbyd sydd mewn digwyddiad neu lle mae'r cerbyd yn rhan o achos cyfreithiol.

## Defnyddiau eraill

Mae yna lawer o sefyllfaoedd eraill lle gellir dangos achos rhesymol. Mae'r rhain yn cynnwys gofyn am fanylion cyswllt ar gyfer galw cerbyd yn ôl diogelwch gan wneuthurwr neu ddosbarthwr.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â gofyn am wybodaeth ceidwad cerbydau, darllenwch ein taflen wybodaeth, 'Rhoi gwybodaeth i bobl o'n cofnod cerbyd (MIS546W)'. Mae hwn ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/giving-people-information-from-our-vehicle-record.cy**

## Y ffi

O dan achos rhesymol, y ffi am wybodaeth ceidwad cerbyd ar ddyddiad penodol digwyddiad yw £2.50. Os oes angen rhagor o wybodaeth, er enghraifft copi o ddogfen neu wybodaeth ychwanegol am geidwad, y gost yw £5 y cerbyd. Mae'r ffi yn talu'r costau ar gyfer darparu'r wybodaeth.

## Trefniadau diogelu i atal data rhag cael ei gamddefnyddio

Yn dilyn adolygiad o'r gweithdrefnau ar gyfer rhyddhau data, cyflwynodd yr Adran Drafnidiaeth (DfT) fesurau diogelu llym. Roedd y rhain yn cynnwys:

- darpariaethau i amddiffyn ceidwaid cerbydau rhag camddefnyddio gwybodaeth bersonol
- gweithdrefnau cwyno clir a chadarn lle honnir camddefnyddio
- sicrwydd y gall y rhai sy'n dangos achos rhesymol gael mynediad at ddata lle torrir cyfraith droseddol, sifil neu gontract.

Pan ddangosir achos rhesymol, mae DVLA yn datgelu gwybodaeth ar yr amod mai dim ond at y diben y gofynnwyd amdani y bydd yn cael ei defnyddio a bydd y derbynnydd yn diogelu ei chyfrinachedd. Mae'n drosedd cael gwybodaeth o dan esgus ffug neu ei defnyddio at unrhyw ddiben heblaw'r diben a nodwyd yn wreiddiol.

Bydd DVLA yn ymchwilio ac yn cymryd camau priodol mewn achosion lle honnir bod cwmnïau'n defnyddio data DVLA yn amhriodol.

## Cymdeithasau Masnach Achrededig (ATA) DVLA

Mae gan DVLA drefniadau diogelu ar waith i ddiogelu preifatrwydd gwybodaeth a gedwir ar y gofrestr cerbydau. Un o'r trefniadau diogelwch hynny yw bod yn rhaid i bob sefydliad heb ei reoleiddio sy'n gofyn am wybodaeth gennym ni trwy gyswllt electronig ddiogel fod yn aelod o ATA DVLA.

Rhaid bod gan bob ATA god ymarfer y gellir ei orfodi sy'n llywodraethu ymddygiad a gweithrediadau eu haelodau. Rhaid cyhoeddi'r cod ymarfer ar wefan yr ATA ynghyd â manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau a chwynion.

Mae angen i ATAs:

- gadw cofnodion o'r holl gwynion a'r hyn y maent wedi'i wneud i'w datrys
- monitro aelodau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r cod ymarfer
- lle bo'n briodol, diaelodi neu atal unrhyw aelod sy'n methu â chydymffurfio â'r cod ymarfer a dweud wrthym o fewn 24 awr o'r achos o ddiaelodi neu atal
- ymchwilio i unrhyw gwynion ar ein cais ynglŷn â thorri amod honedig yn y cod ymarfer neu gamddefnyddio gwybodaeth DVLA ac adrodd y canlyniad yn ôl inni

Gallai ATAs sy'n methu â gorfodi eu cod ymarfer golli eu hachrediad DVLA, sy'n golygu na fydd eu haelodau'n gallu gofyn am wybodaeth DVLA mwyach.

## ATAs presennol

Rydym wedi cymeradwyo'r ATAs canlynol:

- Cymdeithas Parcio Prydain (BPA) www.britishparking.co.uk
- y Gymuned Barcio Ryngwladol (IPC) www.theipc.info
- Cymdeithas Ymchwilwyr Prydain (ABI) www.theabi.org.uk
- Cymdeithas Cyllid a Phrydlesu (FLA) www.fla.org.uk
- British Oil Security Syndicate (BOSS) www.bossuk.org
- Cymdeithas Masnach Credyd Defnyddwyr (CCTA) www.ccta.co.uk
- Credit Services Association Cymdeithas (CSA) www.csa-uk.com

## Hyrwyddo hunanreoleiddio

Mae ein polisi i sicrhau bod cwmnïau'n aelodau o ATA yn gam cadarnhaol a phwyllog. Credwn ei fod yn hyrwyddo mwy o hunanreoleiddio ac yn atgyfnerthu ein diogelwch o breifatrwydd modurwyr.

## Mesurau ychwanegol ar gyfer cwmnïau tresmasu a pharcio ceir

Rhaid i bob sefydliad heb ei reoleiddio sydd â dolen electronig fod yn aelod o ATA. Ehangwyd yr angen am aelodaeth ATA i gynnwys cwmnïau rheoli tresmasu a pharcio ceir sy'n gofyn am wybodaeth trwy'r post. Mae hyn yn sicrhau bod pob cwmni rheoli parcio a thresmasu ceir yn gweithredu i'r un safonau cydnabyddedig.

Mae aelodaeth o ATA yn sicrhau bod y rhai sy'n cael mynediad at ddata yn gwmnïau cyfreithlon sy'n gweithredu o fewn cod ymarfer. Mae'r cod ymarfer yn hyrwyddo triniaeth deg i'r modurwr ac yn sicrhau bod set glir o safonau ar gyfer gweithredwyr sy'n cynnwys, er enghraifft, arwyddion, prosesau apelio, a dulliau o gysylltu â gyrwyr.

Mae gan DVLA weithdrefnau ar waith i ganiatáu i unrhyw un sy'n delio â cheisiadau wirio a yw cwmni'n aelod o ATA. Mae 2 ATA ar gyfer y diwydiant parcio, Cymdeithas Parcio Prydain (BPA) a'r Gymuned Barcio Ryngwladol (IPC). Gellir dod o hyd i wybodaeth am eu codau ymarfer ar eu gwefannau (gweler uchod).

Mae'r ddau ATA yn y sector parcio preifat wedi sefydlu gwasanaethau apelio annibynnol. Maent yn cwmpasu'r holl docynnau a gyhoeddir ar dir preifat yng Nghymru a Lloegr gan aelodau ATA ac fe'u hariennir gan y sector parcio preifat. Gelwir gwasanaeth apêl y BPA yn Apeliadau Parcio ar Dir Preifat (POPLA) a gelwir IPCs yn Wasanaeth Apeliadau Annibynnol (IAS). Rhaid i unrhyw gwmni sy'n cyhoeddi tâl parcio ddarparu manylion ar sut i atgyfeirio apêl i'r gwasanaeth apelio perthnasol.

## Gorchymyn Deddf Diogelu Rhyddidau 2012 (PoFA)

Daeth PoFA i rym yng Nghymru a Lloegr ar 1 Hydref 2012 a gwnaeth nifer o newidiadau i'r gyfraith ar barcio ar dir preifat. Mae'n gwahardd llonyddu cerbydau (clampio olwynion) heb awdurdod cyfreithlon, ac mae'n rhoi pwerau ychwanegol i ddeiliaid tir preifat ymlid ceidwad cofrestredig cerbyd ar gyfer taliadau parcio neu dresmasu heb eu talu. Mae hyn ar yr amod bod rhai amodau, yn Atodlen 4 y Ddeddf, yn cael eu bodloni. Gelwir hyn yn atebolrwydd ceidwad.

Mae'r darpariaethau yn Atodlen 4 yn berthnasol i dir preifat yng Nghymru a Lloegr yn unig. Mae priffyrdd cyhoeddus a lleoedd parcio ar dir cyhoeddus a ddarperir neu a reolir gan awdurdod lleol wedi'u heithrio. Mae unrhyw dir sydd eisoes â rheolaethau statudol ar barcio cerbydau (megis is-ddeddfau sy'n berthnasol i feysydd awyr, porthladdoedd a rhai meysydd parcio gorsaf reilffordd) hefyd wedi'u heithrio.

Cyn PoFA, byddai deiliad tir yn gwneud cais i DVLA am fanylion y ceidwad cofrestredig ond nid oedd angen i geidwad cofrestredig ddweud pwy oedd yn gyrru'r cerbyd na derbyn atebolrwydd. Mae Atodlen 4 y PoFA yn mynd i'r afael â'r sefyllfa hon. Nid yw'n darparu llwybr i hawlio taliadau parcio neu dresmasu nad oedd yn ddyledus yn gyfreithlon yn y lle cyntaf.

Rhaid i'r cwmni parcio neu dresmasu, gan ddefnyddio systemau Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR), roi'r rhybudd i'r ceidwad o fewn 14 diwrnod o'r tramgwydd honedig. Un o'r amodau ar gyfer atebolrwydd ceidwad yw hwn.

Dim ond ar ôl 28 diwrnod y gall cwmnïau sy'n rhoi hysbysiadau sgrîn wynt i yrwyr wneud cais am wybodaeth ceidwad os yw'r tâl parcio yn parhau i fod heb ei dalu. Mae gan gwmnïau 28 diwrnod pellach i gysylltu â'r ceidwad. Os na chyflawnir yr amserlenni hyn, nid yw'r pwerau atebolrwydd ceidwad yn berthnasol; fodd bynnag, gall y cwmni barhau i fynd ar drywydd talu'r tâl mewn ffyrdd a oedd ar gael iddynt cyn cyflwyno PoFA.

Gwnaeth y llywodraeth ei wneud yn amod dod ag Atodlen 4 i rym bod gwasanaeth apelio annibynnol yn cael ei sefydlu ar gyfer modurwyr. Mae'r gwasanaeth apêl annibynnol ATA perthnasol yn cwmpasu'r holl docynnau a gyhoeddir o dan PoFA yng Nghymru a Lloegr.

## Dolenni electronig

Mae gan rai cwmnïau ddolen electronig ddiogel ar gyfer gwneud ceisiadau am ddata a'i dderbyn. Maent yn cadw at delerau contract llym sy'n nodi'r union amodau y gall cwmnïau wneud cais am wybodaeth ceidwad a sut y gellir ei defnyddio. Mae trafodion yn destun archwiliad ac adolygiad DVLA.

Yn gyntaf rhaid i bob cwmni dreulio cyfnod prawf o 6 mis. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn monitro ymddygiad y cwmni wrth ddefnyddio'r data, a bydd unrhyw gwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro'n agos. Rhaid i bob cwmni neu sefydliad sydd heb reoleiddiwr statudol fod yn aelod o ATA DVLA sy'n berthnasol i'w diwydiant. Rhaid i gwmnïau parcio ceir neu reoli tresmasu fod yn aelodau ATA, p'un a ydynt yn gwneud cais â llaw neu drwy ddolen electronig.

## Gwybodaeth sydd gennym amdanoch chi

Gallwch ofyn am wybodaeth sydd gan DVLA amdanoch chi trwy wneud 'cais am fynediad at ddata gan y testun'. I wneud hyn, ysgrifennwch atom yn:

Ymholiadau SAR DVLA
DVRE
DVLA
Abertawe
SA6 7JL

Neu gallwch e-bostio'ch cais i: **SubjectAccess.Requests@dvla.gov.uk**

Bydd angen ichi ddarparu gwybodaeth inni i helpu i brofi pwy ydych chi a dod o hyd i'r wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani fel y gallwn brosesu'ch cais.

Os hoffech gael gwybodaeth am eich cerbyd cyfredol neu gerbyd a oedd wedi'i gofrestru yn eich enw gynt, bydd angen ichi ddarparu:

- eich enw llawn
- eich cyfeiriad presennol a'r cyfeiriad ar eich tystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log) os yw'n wahanol
- rhifau cofrestru'r cerbydau rydych chi'n gofyn amdanynt

Os hoffech gael gwybodaeth o'ch cofnod gyrrwr, gallwch gael hyn trwy ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein yn **www.gov.uk/gweld-neu-rannu-eich-gwybodaeth-trwydded-yrru**

Gallwch anfon e-bost neu ysgrifennu atom gan ddarparu'ch enw llawn, eich cyfeiriad post presennol, a'ch rhif trwydded yrru (neu'ch dyddiad geni os nad ydych chi'n gwybod eich rhif gyrrwr) i'r manylion cyswllt uchod.

Os nad yw'r data rydych chi ei angen amdanoch chi'ch hun yn gysylltiedig â'ch cofnod cerbyd neu yrrwr, rhaid ichi ddweud wrthym yn union pa wybodaeth bellach sydd ei hangen arnoch chi.

Nid oes unrhyw ffi am wneud cais am fynediad at ddata gan y testun. Byddwn yn ymateb i gais o fewn mis o'i dderbyn oni bai ei fod yn gais cymhleth. Yn yr achosion hyn, byddwn yn ysgrifennu atoch i esbonio pam fod oedi a phryd allwch chi ddisgwyl cael ymateb.

## Beth i'w wneud os ydych yn amau bod eich manylion wedi'u caffael yn anghyfreithlon

Er ein bod yn awyddus i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhyddhau dan amgylchiadau priodol yn unig, nid oes gennym awdurdod i gymrodeddu mewn unrhyw anghydfod. Rhaid i unrhyw anghydfodau ynghylch yr amgylchiadau sy'n arwain at ddigwyddiad gael eu penderfynu rhwng yr unigolion perthnasol.

Os credwch fod eich manylion wedi cael eu camddefnyddio neu eu caffael yn dwyllodrus, ysgrifennwch atom:

Tîm Strategaeth a Chydymffurfiaeth Rhannu Data
DVLA
Abertawe
SA99 1DY

Neu e-bostiwch **kadoeservice.support@dvla.gov.uk**

Mae angen ichi ddweud wrthym rif cofrestru'r cerbyd ac egluro sut mae'r wybodaeth wedi'i chamddefnyddio. Byddwn yn ymchwilio i bob honiad o ofyn am wybodaeth yn anghyfreithlon.

Cyhoeddir mwy o fanylion am ein gweithdrefnau cwyno yn

**www.gov.uk/government/organisations/driver-and-vehicle-licensing-agency/about/complaints-procedure.cy**

## Data cerbyd nad yw'n bersonol

Mae DVLA yn darparu data o gofnod y cerbyd i gwsmeriaid masnachol o dan gontract. Mae'r data a ryddhawyd yn anhysbys ac nid yw'n cynnwys unrhyw fanylion personol. Rhaid i gwmnïau sy'n gwneud cais am y data hwn allu bodloni achos rhesymol.

## Data anhysbys

Mae'r data hwn yn cynnwys gwneuthuriad, model a chod post rhannol ond dim gwybodaeth bersonol. Defnyddir y data hwn yn bennaf at ddibenion marchnata, hynny yw, dosbarthu cerbydau yn y DU yn ôl gwneuthuriad a model i hysbysu lleoliadau safleoedd dosbarthu gweithgynhyrchwyr a delwyr.

## Swmp-ddata anhysbys

Mae'r data hwn yn cynnwys gwybodaeth adnabod cerbydau sy'n cynnwys rhif cofrestru cerbyd, rhif adnabod cerbyd (VIN), gwneuthuriad a model. Nid yw'n cynnwys enw ceidwad a manylion cyfeiriad. Mae'r data hwn yn caniatáu i sefydliadau gynnig gwasanaeth gwirio i'r rhai sy'n edrych i brynu cerbyd ail law. Mae hefyd yn helpu garejys a modurwyr preifat i sicrhau bod y rhannau a'r defnyddiau traul cywir yn cael eu caffael a'u gosod ar gerbydau. Fe'i darperir hefyd i gwmnïau yswiriant i ragboblogi manylion technegol cerbydau wrth ddarparu dyfynbrisiau yswiriant.

Heb y wybodaeth hon, byddai prynwyr cerbydau yn agored i fwy o risg wrth brynu cerbydau ail law neu wasanaethu eu cerbydau eu hunain. Byddai gan fodurwyr fwy o siawns o brynu cerbyd a allai fod wedi'i glonio, ei ddwyn neu ei ddileu gan gwmni yswiriant. Byddai modurwyr hefyd yn cael anhawster yn gwirio a yw'r milltiroedd yn ddilys neu beth ddylai gwerth cywir y cerbyd fod.

# Cwestiynau cyffredin am ryddhau data

## Os fi yw'r ceidwad cofrestredig, a oes rhaid i DVLA ofyn am fy nghaniatâd cyn trosglwyddo fy manylion i bobl eraill?

Na. Er nad yw'r manylion ar y gofrestr yn agored i'r cyhoedd, gellir eu rhyddhau ar gais am nifer o resymau. Gall y rhain gynnwys cael eu rhyddhau i'r heddlu neu awdurdod lleol i ymchwilio i drosedd neu drosedd parcio nad yw'n droseddol.

## A all DVLA ryddhau gwybodaeth i unigolion neu gwmnïau preifat?

Gall. Mae'r gyfraith yn caniatáu inni ryddhau gwybodaeth i'r rhai a all brofi bod ganddynt achos rhesymol i'w chael. Rhaid i'r ymgeisydd gadw at set o amodau llym a thalu ffi weinyddu i dderbyn y wybodaeth.

Rhaid i bob cwmni sy'n gwneud cais am ddolen electronig diogel (sy'n caniatáu i gwmnïau ofyn am ddata a'i dderbyn) dreulio cyfnod prawf o chwe mis yn gyntaf. Mae telerau cytundeb clir yn disgrifio pryd y gellir gofyn am wybodaeth, sut y gellir ei defnyddio a sut y dylid ei storio.

## Beth yw ystyr 'achos rhesymol'?

Ym marn DVLA, mae achos rhesymol yn ymwneud â digwyddiadau ag atebolrwydd. Gall y rhain gynnwys materion diogelwch ar y ffyrdd neu ddigwyddiadau o ganlyniad uniongyrchol i ddefnyddio cerbyd.

Ymhlith yr amgylchiadau y barnwyd eu bod yn cwrdd â'r meini prawf achos rhesymol mae, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- alwadau yn ôl diogelwch gan wneuthurwyr
- mân ddigwyddiadau taro a ffoi nad ydynt yn gwarantu ymchwiliad heddlu llawn
- cymdeithasau tai sy'n delio â cherbydau wedi'u gadael
- gorfodi cyfyngiadau parcio ar dir preifat
- cwmnïau yswiriant sy'n delio â damweiniau ac yn ymchwilio i dwyll.

## A yw'r ceidwad cofrestredig yn atebol am y tâl parcio os nad oedd yn gyfrifol am achosi'r tâl?

O dan Deddf Diogelu Rhyddidau 2012, dim ond pan fydd rhai gofynion yn cael eu bodloni y gellir canfod ceidwad cofrestredig yn atebol am gostau parcio heb eu talu. Pan fydd ceidwad cofrestredig yn gwrthod neu'n methu â nodi'r gyrrwr, gall deiliad y tir ymlid y ceidwad cofrestredig.

Ni ellir ymlid y ceidwad cofrestredig am gostau parcio heb eu talu a gafwyd pan gafodd y cerbyd ei ddwyn. Cyfrifoldeb y ceidwad cofrestredig yw cyflwyno tystiolaeth i fodloni deiliad y tir bod y cerbyd wedi'i ddwyn.

## Os derbyniaf rybudd tâl parcio gan gwmni parcio preifat neu dresmasu, a allaf apelio i wasanaeth apeliadau annibynnol?

Mae pob tocyn a gyhoeddir o dan PoFA yng Nghymru a Lloegr yn dod o dan wasanaeth apêl annibynnol yr ATA perthnasol. Gall gyrrwr neu geidwad cofrestredig herio tocyn dadleuol i'r cwmni parcio yn y lle cyntaf. Yna gall y cwmni benderfynu a ddylid canslo'r tocyn neu leihau'r taliadau ai peidio. Os nad yw'r gyrrwr neu'r ceidwad cofrestredig yn fodlon â phenderfyniad y cwmni, gallant apelio i wasanaeth apeliadau annibynnol. Mae penderfyniad y gwasanaeth apeliadau annibynnol yn orfodol ar y gweithredwr ond nid ar y modurwr, sydd bob amser yn rhydd i barhau i herio tâl dadleuol.

Rhaid i bob tocyn a gyhoeddir gan aelodau ATA gynnwys manylion y trefniadau ar gyfer datrys anghydfodau neu gwynion.

## Pa dystiolaeth y mae'n rhaid i gwmnïau preifat ei darparu er mwyn derbyn data DVLA?

Rhaid i bob cwmni sy'n gofyn am ddata DVLA ddangos bod ganddynt achos rhesymol dros ei dderbyn ac egluro sut y byddant yn defnyddio'r data. Rhaid i gwmnïau sy'n gofyn am wybodaeth i orfodi taliadau parcio ddarparu manylion eu gweithgareddau busnes. Rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth sy'n dangos eu bod yn gweithredu ar ran perchennog y tir, bod cynllun taliadau parcio yn bodoli a bod modurwyr yn cael eu hysbysu am y cynllun taliadau parcio. Rhaid i gwmnïau fod wedi'u cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a bod yn aelodau presennol o ATA.

## Pa dystiolaeth y mae'n rhaid i gwmnïau rheoli tresmasu ei darparu er mwyn derbyn data DVLA?

Rhaid i gwmnïau sy'n rheoli tresmasu ar dir preifat ac yn gweithredu mewn modd tebyg i gwmnïau parcio preifat sy'n cyhoeddi hysbysiadau codi tâl, ddarparu'r un dystiolaeth â chwmnïau parcio. Rhaid iddynt hefyd fod yn aelod presennol o ATA cyn y gellir datgelu data ceidwad cerbyd.

## Pa dâl a godir gan DVLA a beth mae'n ei dalu?

Bwriad costau DVLA i ryddhau data yw adennill cost lawn darparu'r wybodaeth. Nid yw DVLA yn elwa ar draul cwsmeriaid nac yn gwneud colled i drethdalwyr ei sybsideiddio.

## Sut mae cwmnïau parcio ceir preifat yn cyrchu data DVLA?

Gallant wneud hyn naill ai trwy ddolen electronig ddiogel neu drwy wneud cais â llaw. Mae gennym fesurau diogelwch llym ar waith ar gyfer y ddau ffordd.

Rhaid i bob cwmni rheoli parcio preifat sydd angen mynediad at ddata DVLA fod yn aelod o ATA DVLA a chydymffurfio â chod ymarfer y gymdeithas honno.

Mae dau ATA ar gyfer y diwydiant parcio ceir preifat: Cymdeithas Parcio Prydain (BPA) a'r Gymuned Barcio Ryngwladol (IPC). Mae eu codau ymarfer ar gael ar eu gwefannau:

www.britishparking.co.uk

www.theipc.info

## Beth yw'r broses ar gyfer cyrchu data â llaw?

Rhaid i gwmnïau ac unigolion sy'n gofyn am wybodaeth trwy sianeli waith llaw ddarparu gwybodaeth fanwl ynghylch pam eu bod eisiau'r wybodaeth a sut y bydd yn cael ei defnyddio. Mae angen iddynt ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu cais. Rhaid i gwmnïau parcio ceir hefyd gadarnhau bod cynllun parcio ar waith, a phrofi eu bod yn gweithio ar gyfarwyddyd y tirfeddiannwr.

Yna byddwn yn datgelu'r wybodaeth ar yr amod mai dim ond at y dibenion y gofynnwyd amdani y bydd yn cael ei defnyddio.

## Beth yw'r broses ar gyfer cyrchu data trwy ddolen electronig?

Mae sefydliadau sy'n gofyn am wybodaeth trwy ddolen electronig ddiogel yn gwneud hynny o dan delerau contract llym. Mae'r rhain yn nodi'r union amodau y gall cwmnïau wneud cais am wybodaeth ceidwad, sut y gellir ei defnyddio a sut y dylid ei storio.

Rhaid i bob cwmni dreulio cyfnod prawf o 6 mis yn gyntaf. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn monitro eu hymddygiad wrth ddefnyddio'r data a bydd unrhyw gwynion yn cael eu cofnodi a'u monitro'n agos. Rydym yn cynnal archwiliadau ar gwmnïau i sicrhau bod pob cais yn briodol a bod y data a ddarperir yn cael ei storio a'i ddefnyddio fel y cytunwyd.

## Beth mae DVLA yn ei wneud ynglŷn â manylion sy'n cael eu cyrchu'n amhriodol?

Credwn ei bod yn hanfodol bwysig ddiogelu'r wybodaeth a ryddhawyd rhag cael ei chamddefnyddio ac mae gennym ystod o fesurau cadarn ar waith i ddiogelu yn ei herbyn.

Os tynnir ein sylw y gallai unrhyw sefydliad neu unigolyn fod yn camddefnyddio data, byddwn yn ymchwilio'n drylwyr. Lle bo'n briodol, byddwn yn atal rhyddhau data pellach i'r sefydliad. Bydd unrhyw dystiolaeth o gamddefnyddio yn cael ei chyfeirio at y Comisiynydd Gwybodaeth i ymchwilio ymhellach a, lle bo hynny'n briodol, i gael ei erlyn.

## Faint o geisiadau y mae DVLA yn eu cael am fanylion ceidwaid cerbydau?

Cyhoeddir gwybodaeth am nifer y ceisiadau a dderbyniwn yn **www.gov.uk/government/publications/who-dvla-shares-data-with**

Prynu cerbyd?

Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.

**www.gov.uk/vehicletaxrules**

INF266W
4/22